

Gwneud cais ar-lein drwy Ceisiadau Cynllunio Cymru

Mae Ceisiadau Cynllunio Cymru yn galluogi defnyddwyr cofrestredig i greu a chyflwyno ceisiadau ar-lein i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Os byddwch hefyd yn bwriadu cyflwyno ceisiadau i awdurdodau lleol yn Lloegr, bydd angen i chi wneud hynny gan ddefnyddio'r [Planning Portal](#). Bydd eich manylion mewngofnodi yn eich galluogi i ddefnyddio'r ddau wasanaeth.

Drwy gyflwyno ceisiadau ar-lein, gellir darparu gwasanaeth ceisiadau cynllunio cyflymach a mwy ymatebol.

Gallwch gofrestru â Ceisiadau Cynllunio Cymru drwy glicio ar y ddolen 'Cofrestru' yng nghornel chwith uchaf unrhyw dudalen ar y safle.

Drwy gofrestru am gyfrif gyda Ceisiadau Cynllunio Cymru gallwch hefyd ddefnyddio'r Planning Portal.

Darperir y gwasanaeth er mwyn sicrhau, yn y rhan fwyaf o achosion, y gellir cwblhau a chyflwyno pob rhan o gais yn electronig, gan gynnwys gwneud taliad.

Arfer gorau gwneud cais ar-lein

- **Cliriwch storfa (cache) eich porwr** cyn mewngofnodi i Ceisiadau Cynllunio Cymru – bydd hyn yn sicrhau bod y system yn llwytho'r wybodaeth i mewn i'ch cais yn gywir ac nad oes unrhyw hen wybodaeth i'w gweld.
- **Dechreuwch sesiwn newydd** drwy fewngofnodi. Defnyddiwch y ddolen yng nghornel chwith uchaf y dudalen cyn dechrau cais, neu ewch i'ch rhestr ceisiadau.
- **Enwch eich cais gan ddefnyddio cyfeiriad y safle** – bydd hyn yn eich galluogi i'w adnabod yn hawdd yn nes ymlaen a bydd yn helpu'r awdurdod cynllunio lleol (ACLI) i adnabod eich cais pan fydd yn ei gael.
- **Cwblhewch y ffurflenni gan ddefnyddio priflythrennau a llythrennau bach** – ysgrifennwch yn ôl yr arfer gan ddefnyddio priflythyren ar ddechrau pob brawddeg, er mwyn helpu'r ACLI i'w prosesu.
- **Crëwch archif o'ch cais** unwaith y bydd yr ACLI wedi'i gael. Pan fydd y cais wedi dod i law'r ACLI bydd ei statws yn newid i 'Trosoglwyddwyd'.

Gohebiaeth Electronig

Dylai defnyddwyr bob amser rhoi eu cyfeiriad e-bost ar y ffurflen gais, fel y gall ACLlau ohebu â hwy'n electronig drwy gydol y broses.

Nodwch: Pan gyflwynir cais ar-lein, tybir bod yr ymgeisydd wedi cytuno â'r canlynol:

- a) i'r ACLI ddefnyddio gohebiaeth o'r fath at ddibenion y cais;
- b) mai cyfeiriad yr ymgeisydd at y dibenion hynny yw'r cyfeiriad a roddir gyda'r cais;
- c) y bydd y cytundeb hwn yn parhau nes i'r ymgeisydd hysbysu'r ACLI yn ysgrifenedig i roi'r gorau i ddefnyddio gohebiaeth electronig.

Creu cais newydd

Gallwch ddechrau cais newydd drwy glicio ar y ddolen 'Dechrau cais' sydd gyntaf yn y rhestr 'Cynllunio' ar waelod pob tudalen ar y safle.

Mae pob cais yn gofyn am dri manylyn sylfaenol:

1. **Enw** - Enw ar gyfer eich cais, [dylech ddefnyddio cyfeiriad y safle](#).
2. **Lleoliad** - Lleoliad eich datblygiad (mae hyn hefyd yn ein galluogi i nodi'r awdurdod cynllunio lleol (ACLI) perthnasol ar gyfer y safle hwnnw).
3. **Math** - Y math o gais sydd ei angen arnoch (efallai y byddwch am gysylltu â'ch ACLI er mwyn trafod hyn neu [edrychwch i weld y mathau o geisiadau rydym yn eu cynnig](#)).

Pan fyddwch wedi cadarnhau'r manylion sylfaenol hyn, caiff eich cais newydd ei gadw yn barod i chi ddechrau ei gwblhau. Bydd hefyd yn cael ei storio o dan y tab 'Drafft' yn eich rhestr 'Fy Ngheisiadau' rhag ofn y byddwch am aildechrau gweithio arno'n ddiweddarach.

[Dewiswch 'gweld eich ceisiadau cynllunio' o'r rhestr 'Cynllunio' ar waelod pob tudalen ar y safle.](#)

Eich cais ar-lein

Pan fyddwch wedi creu cais newydd neu pan fyddwch yn agor un sy'n bodoli eisoes o'r rhestr 'Fy Ngheisiadau', byddwch yn cael eich tywys i'r tab **'Trosolwg'** ar gyfer y cais hwnnw. Mae'r sgrin hon yn eich galluogi i weld a rheoli manylion eich cais.

Mae'r sgrin hon yn dangos enw'r cais, ei rif cyfeirnod (â'r rhagddodiad PP), y math o ganiatâd rydych yn gofyn amdano, yr awdurdod cynllunio lleol (ACLI) sy'n gyfrifol am benderfynu ar eich cais, a statws y cais a'r dyddiad y cafodd ei greu gyntaf.

Diwygiadau

O'r man hwn, gallwch hefyd ddiwygio cais a gyflwynwyd yn flaenorol drwy ddewis 'Diwygio' yn y blwch ar gyfer manylion y cais.

Nodwch, unwaith y byddwch wedi diwygio cais, y bydd angen i chi ddilysu (gwirio) y ffurflenni a chyflwyno'r cais eto er mwyn anfon y diwygiadau i'r ACLI.

Er mwyn helpu'r ACLI gyda'ch cais diwygiedig, argymhellwn eich bod yn atodi dogfen ychwanegol sy'n nodi'r diwygiadau rydych wedi'u gwneud.

Gwneud Cais Ar-lein

Gan ddefnyddio'r tabiau i'r dde o **'Trosolwg'** gallwch gwblhau'r tasgau canlynol:

1. **Ffurflenni** - Cwblhau'r ffurflen gais (hefyd yn rhestru holl adrannau'r ffurflen)
2. **Dogfennau Ategol** - Atodi dogfennaeth ategol
3. **Ffioedd** - Cyfrifo ffioedd y cais
4. **Gwirio, Talu a Chyflwyno** –
 - Cadarnhau bod y cais wedi'i gwblhau a'i fod yn barod i'w gyflwyno
 - Talu ffi'r cais
 - Cymeradwyo'r cais a'i gyflwyno i'r ACLI perthnasol.

Nodir y camau hyn isod.

1. Ffurflenni – Cwblhau'r ffurflen gais

Mae eich ffurflen yn cynnwys cyfres o gwestiynau y mae'n rhaid eu hateb er mwyn galluogi'r awdurdod cynllunio lleol (ACLI) i benderfynu ar eich cais.

Dylech ateb y cwestiynau yn eu trefn oherwydd bydd y system yn dileu (troi'n llwyd) unrhyw gwestiynau nad oes eu hangen yn awtomatig, h.y. lle mae eich atebion i gwestiynau blaenorol yn golygu nad yw cwestiynau dilynol yn berthnasol mwyach.

Mae'r rhan fwyaf o gwestiynau ar y ffurflen yn cynnwys testun i'ch helpu i'w hateb. Gallwch weld y testun hwn drwy glicio ar y botwm 'Help' yng nghornel dde uchaf y cwestiwn.

Ar ôl i chi ateb cwestiwn, cliciwch ar y botwm 'nesaf'. Bydd hyn yn cadw'r manylion a roddwyd mor belled ac yn eich tywys i'r cwestiwn nesaf.

Hefyd, dylech bob amser glicio ar 'nesaf' cyn clicio ar dab arall neu cyn gadael y cais, oherwydd bydd hyn yn sicrhau bod y manylion rydych wedi'u rhoi yn cael eu cadw at y tro nesaf y byddwch yn dychwelyd at y ffurflen.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen, dylech weld 'Cwblhawyd' ar gyfer pob cwestiwn. Os byddwch yn gweld 'Anghyflawn' ar gyfer unrhyw un, bydd angen i chi ddychwelyd at y cwestiwn hwnnw eto drwy glicio ar ei ddolen a sicrhau eich bod wedi ateb pob rhan ohono.

Os na fyddwch yn credu bod y cwestiwn a ofynnir yn berthnasol i'ch cais, dylech nodi *'ddim yn gymwys'* yn yr adran berthnasol. Fodd bynnag, dylech gysylltu â'ch ACLI er mwyn sicrhau nad oes angen i chi ateb y cwestiwn hwn er mwyn iddo ddilysu eich cais.

Dylech hefyd gysylltu â'ch ACLI os oes gennych unrhyw ymholiadau cynllunio am eich cais. Gallwch ddod o hyd i'w fanylion cyswllt gan ddefnyddio'r [adnodd 'chwilio am Awdurdod Lleol'](#).

Heblaw am fanylion cyswllt yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr (rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost), gall yr holl wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau ategol gael ei chyhoeddi ar wefan yr ACLI.

2. Dogfennau Ategol - Atodi dogfennaeth ategol

Mae'r rhan fwyaf o geisiadau yn gofyn am fwy o wybodaeth na'r hyn y gellir ei rhoi ar y ffurflen gais yn unig.

Dogfennau gorfodol

Ni fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yn gallu prosesu eich cais oni fydd yr **holl** ddogfennaeth ategol orfodol wedi'i darparu.

Nodwch: Oni fydd **o leiaf un** atodiad ym mhob **maes gorfodol** yn yr adran Dogfennau Ategol, ni fydd y system yn gadael i chi gyflwyno eich cais.

Mae dwy lefel o ddogfennau gorfodol, sef rhai cenedlaethol a lleol:

- **Cenedlaethol** - Bydd y gwasanaeth gwneud cais yn dweud wrthyich pa ddogfennaeth orfodol y mae angen i chi ei darparu er mwyn cefnogi eich cais.
- **Lleol** - Bydd yr ACLI wedi llunio rhestr (bydd fel arfer ar gael o ddolen yn y panel ar y dde ar y sgrin dogfennau ategol, sef "Gofynion Cais Cynllunio") sy'n nodi unrhyw ddogfennaeth benodol sydd ei hangen gyda'r cais, yn ogystal â'r gofynion cenedlaethol.

Cysylltwch â'ch ACLI os bydd gennych unrhyw gwestiynau dilysu.

Dogfennau dewisol

Gallwch hefyd atodi unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall a fydd, yn eich barn chi, yn helpu'r ACLI i benderfynu ar y cais.

Nodwch: Ni ddylech geisio cyflwyno ceisiadau ychwanegol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol drwy gyflwyno ffurflenni cais PDF gorffenedig fel dogfennau ategol i gais arall.

Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno ar wahân, ni waeth sut y caiff ei gyflwyno.

Cyfyngiadau dogfennau ategol

Mathau o ffeiliau - Y mathau o ffeiliau a gefnogir yw:

- Adobe PDF - .pdf
- Delweddau - .bmp, .gif, .jpg / .jpeg, .png, .tif
- CAD (HPGL) - .plt
- Microsoft Office - .doc / .docx, .xls / .xlsx
- Testun - .rtf, .txt
- Fideo – .avi, .mov, .mp4 .mpg / .mpeg, .wmv
- GML - .gml

Os hoffech gyflwyno dogfennaeth ategol mewn unrhyw ffordd arall, dylech ddefnyddio'r mathau o ffeiliau a restrir uchod lle bynnag y bo modd. Os hoffech ddefnyddio unrhyw fath arall o ffeil, dylech gysylltu â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) cyn cyflwyno eich cais oherwydd efallai na fydd yn gallu ei dderbyn.

Maint y ffeil - Ni fyddwch yn gallu lanlwytho ffeiliau sydd dros 5MB.

Enw'r ffeil - Y nodau a gefnogir o fewn enw ffeil yw:

- Y llythrennau A i Z (priflythrennau a llythrennau bach),
- Y rhifau 0 i 9
- Y nodau:
 - " " (bwlch)
 - "-" (llinell doriad)
 - "_" (tanlinell)
 - "(" (agor cromfach)
 - ")" (cau cromfach)
 - "." (atalnod llawn) – a ddefnyddir i wahanu enw'r ffeil a'r math o ffeil

Enghreifftiau a ganiateir:

- Cynllunysafle.pdf
- Gwedduniau presennol Drwg 1345-2.tif
- cynllun-llawr-cyntaf_arfaethedig_drwg 1346-1.plt
- RHANNAU AA BB (DRWG 234_1 DIW 2).PDF
- Manylion-ffrâm-pren_cyntedd (179098_2) (Datganiad treftadaeth).doc

Os na all yr ALL lawrlwytho neu weld ffeil atodedig, efallai y bydd yn gofyn i chi ei darparu eto ar ffurf ffeil y gall ei defnyddio, neu gyflwyno copi caled o'r wybodaeth.

Atodi cynlluniau a lluniadau

Rhaid i bob cynllun a lluniad gynnwys bar graddfa, dimensiynau allweddol, y cyfeiriad i'r gogledd, maint y papur gwreiddiol a'r raddfa (e.e. 1:200 ar A3) wedi'u nodi'n glir arno.

Er nad yw'n orfodol, drwy gyflwyno cynlluniau a lluniadau ar A3, bydd yr ACLI yn gallu prosesu eich cais yn fwy effeithlon. Er enghraifft, gallech ystyried gosod llai o weddluniau ar bapur o faint llai, hyd yn oed os yw hyn yn golygu cyflwyno mwy o ddogfennau. Byddem hefyd yn argymhell ond defnyddio lliw pan fo'n rhaid yn unig oherwydd gall hyn gynyddu maint ffeiliau'n sylweddol.

Arfer gorau o ran dogfennau ategol

Gallwch helpu'r ACLI sy'n cael eich cais ei brosesu'n fwy effeithlon mewn sawl ffordd:

- Mae Fformat Dogfen Gludadwy (PDF) yn fformat ffeil agored dibynadwy, yr ymddiriedir ynddo, a ddefnyddir i drosi bron unrhyw ddogfen yn fformat hawdd ei ddarllen, sy'n safonol i'r diwydiant. Drwy drosi neu sganio ffeiliau lluniadau gwreiddiol yn fformat PDF, gellir lleihau maint y ffeil wreiddiol, tra'n ei chadw'n gyfan a diogelu gwybodaeth y ffeil wreiddiol.
- Sicrhewch fod gogwydd y ffeiliau yn gywir wrth eu lanlwytho. Dylai'r ffeil gael ei chadw yn y gogwydd y dylid edrych arni ynddo, hynny yw tirlun neu bortread.
- Lle bynnag y bo modd, ceisiwch fformatio eich cynlluniau a'ch gweddluniau ar bapur A3 (neu ewch ati i leihau'r gwreiddiol i faint A3). Bydd hyn yn lleihau'r amser a'r costau argraffu i'r ACLI lle mae angen argraffu copïau at ddiben ymgynghori.
- Sicrhewch eich bod bob amser yn nodi'r maint gwreiddiol a'r raddfa lluniadu yn glir, gan gynnwys bar graddfa a dimensiynau allweddol a fydd yn golygu y gall eich lluniad gael ei osod wrth raddfa yn gywir ar y sgrin mewn unrhyw faint.
- Os byddwch yn lleihau eich lluniad gwreiddiol i faint A3 er mwyn ei gyflwyno, sicrhewch eich bod yn nodi'r maint gwreiddiol a'r raddfa, yn ogystal â'r maint y cafodd ei leihau iddo (e.e. Graddfa 1:500 maint gwreiddiol A2, wedi'i leihau i A3). Hefyd sicrhewch bod modd darllen anodiadau a thestun arall ar ôl ei leihau.
- Wrth ddefnyddio fformatau ffeiliau cywasgedig (jpg/jpeg, pdf, avi, wmv) dylech sicrhau bod y ddogfen o safon ac eglurdeb digon uchel, neu efallai y bydd gofyn i chi ei hailgyflwyno.
- Peidiwch â defnyddio exe, zip na fformatau archif eraill gan fod meddalwedd diogelwch yn aml yn trin y rhain fel fformatau risg uchel, ac efallai na chaiff eich dogfennaeth ei throsglwyddo i'r ACLI yn gywir.

Nodwch: Ni all yr ALI gofrestru cais nes i'r holl ddogfennaeth ategol gael ei chyflwyno.

Felly, argymhellwn gyflwyno popeth ar-lein lle bo modd, yn hytrach nag anfon peth gwybodaeth yn y post, er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth gofrestru eich cais.

Heblaw am fanylion cyswllt yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr (rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost), gall yr holl wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau ategol gael ei chyhoeddi ar wefan yr ACLI.

3. Ffioedd – Cyfrifo ffi'r cais

Mae'r cyfrifiannell ffioedd wedi'i ddarparu fel bod modd i chi weithio allan pa ffi sydd ei hangen ar gyfer eich cais, drwy ddewis y blychau ticio perthnasol.

Nodwch, er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y ffi wedi'i chyfrifo'n gywir, mai'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) perthnasol, a neb arall, sy'n gyfrifol am benderfynu a yw'r ffi yn gywir. Pan fyddwch wedi cyflwyno cais, bydd yr ACLI yn gwirio'r ffi ac yn cadarnhau a yw'n gywir.

Os ydych yn hawlio eithriad rhag talu (e.e. os yw'r gwaith arfaethedig yn gysylltiedig â darparu mynediad i bobl ag anableddau i'r adeilad), neu os ydych yn hawlio gostyngiad (e.e. os mai datblygiad gan gyngor plwyf sydd dan sylw), yna gall rhai ACLLau ofyn am ddatganiad gyda'ch cais sy'n rhoi'r manylion priodol (bydd angen i chi gysylltu â'ch awdurdod cyn cyflwyno'ch cais er mwyn cadarnhau hyn).

4. Gwirio, Talu a Chyflwyno – Cwblhau'r ceisiadau ar-lein

Gwirio

Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflenni, wedi ychwanegu dogfennaeth ategol ac wedi cyfrifo'r ffioedd, bydd y system yn gwirio'r cais cyfan er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth orfodol wedi'i rhoi a bod pob cam wedi'i gwblhau.

Ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r cais nes i chi gwblhau'r cam 'Gwirio'.

Os na fyddwch wedi cwblhau unrhyw ran o'r cais, nodir hynny gan y system, h.y. bydd 'anghyflawn' yn ymddangos wrth yr adran neu'r maes sy'n cynnwys gwybodaeth anghywir neu lle mae gwybodaeth ar goll. I ddatrys hyn, cliciwch ar y ddolen a bydd y system yn eich tywys i'r rhan o'r ffurflen i'w chwblhau.

Pan fydd pob cam ar y cais wedi'i gwblhau, gallwch dalu am y cais a'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI).

Er mwyn talu am y cais a'i gyflwyno, bydd angen i chi glicio ar y botwm 'Talu a Chyflwyno' ar ochr dde waelod y sgrin 'Gwirio'.

Talu a Chyflwyno

Pan fydd y system wedi sicrhau bod pob rhan wedi'i chwblhau, gallwch dalu am y cais a'i gyflwyno.

Yr opsiynau talu a ddangosir yw'r rhai a gynigir gan yr ALL sy'n prosesu eich cais.

Nodwch: Ni all yr ALI gofrestru cais nes i'r ffi gywir gael ei thalu. Felly, argymhellwn dalu ar-lein neu dros y ffôn yn hytrach nag anfon siec er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth gofrestru eich cais.

Bydd y rhan fwyaf o Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) yn derbyn y tri math o daliad canlynol:

1. **Ar-lein** - Talu drwy gerdyn credyd neu ddebyd ar-lein yn ddiogel
2. **Siec** - Bydd y system yn nodi pwy y dylid gwneud y siec yn daladwy iddo a ble i'w hanfon pan fyddwch yn dewis yr opsiwn hwn ac yn cyflwyno'r cais.

Wrth anfon siec, sicrhewch eich bod yn ysgrifennu rhif cyfeirnod y cais a chyfeiriad y safle ar gefn y siec ac ar unrhyw lythyr eglurhaol.

Postiwch y siec cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'r cais oherwydd rhaid derbyn y ffi cyn dilysu'r cais. Bydd hyn yn helpu i osgoi unrhyw oedi wrth gofrestru eich cais.

3. **Dros y ffôn** - Bydd y system yn darparu rhif ffôn yr ALI ar gyfer gwneud taliad pan fyddwch yn dewis yr opsiwn hwn ac yn cyflwyno'r cais.

Bydd rhai ACLlau hefyd yn derbyn taliad drwy Drosglwyddiad BACS neu drwy eu systemau talu eu hunain ar eu gwefannau. Os byddwch yn dewis un o'r opsiynau hyn, bydd y system yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am sut i dalu unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r cais.

Drwy glicio ar y botwm 'Talu a Chyflwyno' byddwch yn cyflwyno'r ffurflen gais a gwybodaeth ategol i'r ACLI.

Talu Ar-lein

Os gwnaethoch ddewis yr opsiwn i dalu 'Ar-lein', cewch eich ailgyfeirio i beiriant talu ar-lein yr ALI er mwyn gwneud y taliad gofynnol.

Peidiwch â defnyddio botwm 'Nôl' eich porwr wrth gyflwyno eich cais neu dalu ar-lein oherwydd gall hyn wneud i'r broses fethu.

Caiff y systemau talu ar-lein eu rheoli gan yr ACLlau yn unigol. Felly, os bydd problem yn codi wrth brosesu taliad ar-lein ar gyfer cais, bydd angen i chi gysylltu â'r ACLI yn uniongyrchol.

Ar ôl i chi wneud y taliad, byddwch yn dychwelyd i Ceisiadau Cynllunio Cymru.

Os byddwch yn canslo'r taliad neu os na fyddwch yn dychwelyd i Ceisiadau Cynllunio Cymru ar ôl gwneud taliad, efallai na fydd eich cais wedi'i gyflwyno.

Gallwch weld beth yw statws eich cais ar y sgrin 'Trosolwg' neu yn y rhestr 'Fy Ngheisiadau'. Nodir 'Cyflwynwyd' neu 'Trosglwyddwyd' ar gyfer ceisiadau sydd wedi'u cyflwyno.

Os bydd y cais yn dal i fod yn un 'Drafft' yna ni fydd wedi'i gyflwyno a dylech gysylltu â'n desg gymorth. Dylech hefyd gysylltu â dyroddwr eich cerdyn talu er mwyn cadarnhau a wnaed y taliad cyn cysylltu â ni.

Ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen

Os na wnaethoch ddefnyddio'r opsiwn talu 'Ar-lein', yna caiff manylion am sut i dalu'r ffi gan ddefnyddio eich dewis opsiwn eu dangos ar y sgrin cadarnhau cyflwyno cais.

Nodwch: Ni all yr ALI gofrestru cais nes i'r ffi gywir gael ei thalu.

Gallwch weld cais sydd wedi'i gyflwyno gennych, a chael mynediad iddo, am ddwy flynedd o'r dyddiad cyflwyno ar y sgrin 'Fy Ngheisiadau'. Ar ôl y cyfnod hwnnw, caiff ei archifo.

Diwygiadau

Unwaith y bydd eich cais wedi cael ei gyflwyno i'r ACLI, ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw newidiadau iddo heb wneud diwygiad. Er mwyn diwygio cais sydd wedi'i gyflwyno, dylech ddewis 'diwygio' yn y blwch ar gyfer manylion y cais yn y tab 'trosolwg'.

Nodwch, unwaith y byddwch wedi diwygio cais, y bydd angen i chi ddilysu (gwirio) y ffurflenni a chyflwyno'r cais eto er mwyn anfon y diwygiadau i'r ACLI.

Er mwyn helpu'r ACLI gyda'ch cais diwygiedig, argymhellwn eich bod yn atodi dogfen ychwanegol sy'n nodi'r diwygiadau rydych wedi'u gwneud.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) wedi cael eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn cael e-bost i gadarnhau hynny. Bydd yr e-bost hwn yn cynnwys rhif cyfeirnod unigryw, a dylech ei ddyfynnu mewn unrhyw ohebiaeth â'r ACLI. Mae eich rhif cyfeirnod hefyd ar gael ar y dudalen 'Trosolwg o'r Cais'.

Nodwch: Nid yw cadarnhad drwy e-bost yn gyfystyr â derbyn eich cyflwyniad electronig yn ffurfiol gan eich Awdurdod Cynllunio Lleol.

Pan fydd yr ACLI wedi cael eich cais, dogfennau ategol a thaliad, bydd yn ei gofrestru a'i ddilysu fel rhan o'i brosesau a'i amserlenni llif gwaith arferol. Os bydd angen i'r ACLI gael rhagor o wybodaeth, neu os bydd ganddo unrhyw gwestiynau, bydd yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

Am ragor o wybodaeth am hynt eich cais ar-lein, cysylltwch â'ch awdurdod lleol gan ddyfynnu eich rhif cyfeirnod.

Cael help

Cwestiynau penodol, talu ar-lein ac ar ôl cyflwyno'r cais

Os bydd gennych gwestiwn penodol am eich cais (er enghraifft, ymholiad am y ffioedd, gofynion dogfennau ategol neu atebion i gwestiynau penodol) dylech gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) perthnasol.

Ni all y ddesg gymorth ateb cwestiynau o'r fath gan mai'r ACLI sy'n gyfrifol am wneud hynny.

Dylech hefyd gysylltu â'r ACLI yn uniongyrchol os bydd problem yn codi wrth brosesu taliad ar-lein ar gyfer cais, gan mai'r ACLlau yn unigol sy'n rheoli'r systemau talu ar-lein.

Unwaith y caiff y cais ei gyflwyno, bydd yr awdurdod yn gallu helpu gydag unrhyw ymholiadau.

Help gyda'r system gwneud cais ar-lein a chymorth technegol

Am wybodaeth am sut i gysylltu â'r ddesg gymorth, [ewch i https://beta.llyw.cymru/cymorth-defnyddio-ceisiadau-cynllunio-cymru](https://beta.llyw.cymru/cymorth-defnyddio-ceisiadau-cynllunio-cymru)